

# Adolygiad Cymru 2023/24

# Cyflwyniad



"Mae gan wynt alltraeth arnofiol y potensial o ddod â buddion anferth i'r economi ac i gymunedau o amgylch y Môr Celtaidd, yn ogystal â chefnogi sero net a diogelwch ynni."

## Croeso

Mae Cymru wedi arwain y ffordd wrth ddefnyddio pŵer adnoddau naturiol ar gyfer ynni. Mae hi bron yn 100 mlynedd ers i'r orsaf bŵer hydrodrydanol gael ei chomisiynu, ac ychydig dros 20 mlynedd ers i fferm wynt alltraeth arnofiol gyntaf y DU agor yn North Hoyle oddi ar arfordir gogledd Cymru.

Mae lansiad diweddar Rownd Brydlesu 5 Ynni Gwynt Alltraeth wedi rhoi Cymru wrth galon technoleg egni adnewyddadwy arloesol unwaith eto, gyda chynigion ar gyfer ffermydd gwynt alltraeth arnofiol yn y Môr Celtaidd yn torri tir newydd.

Mae hon wedi bod yn flwyddyn arwyddocaol i Ystad y Goron. Cefais y pleser o ymweld â phob cornel o Gymru wrth i ni weithio i gyflawni ein strategaeth - gan gwrdd â phartneriaid a rhanddeiliaid, arweinwyr o fewn y diwydiant, elusennau a phartneriaid cadwraeth. Rydym wedi dyfnhau ein cysylltiad â'n haelodau etholedig ar lefel San Steffan, Senedd Cymru ac awdurdodau lleol, gan chwilio am ffyrdd o weithio mewn partneriaeth i ymateb i rai o heriau mwyaf cymhleth ein hoes. Rydym hefyd yn rhannu'r un pwrpas â rhwydwaith o sefydliadau a mudiadau lleol sy'n tyfu, gan agor drysau i gyfleoedd diddorol a chyffrous sy'n cael eu rhannu yn yr adolygiad hwn.

Mae gweithio tuag at gonsensws ynglŷn â Rownd 5 a lansio'r broses dendro yn ddiamau yn un o'n prif lwyddiannau yn ystod y flwyddyn, ac mae wedi golygu ein bod fel tîm wedi canolbwyntio llawer ar hyn. Rydym wedi casglu mewnbwn gan ystod eang o randdeiliaid ac wedi defnyddio profiad a gallu rydym wedi'u datblygu dros y pedair rownd flaenorol blaenorol o brydlesu er mwyn gwneud y gorau o'r buddion posibl i fusnesau a chymunedau o amgylch y Môr Celtaidd, tra'n cefnogi blaenoriaethau natur a sero net cenedlaethol.

Rwy'n ddiolchgar am y gefnogaeth rydym wedi'i dderbyn gan y Prif Weinidog ar y pryd, Mark Drakeford, a'r Gweinidog dros Newid Hinsawdd ar y pryd, Julie James, wnaeth ymuno yn ein Diwrnod Cynigwyr yn Abertawe, ac a wnaeth eiriol mor frwd dros y cyfle a'r trawsnewid I fydd yn cael ei gyflawni gan wynt alltraeth arnofiol i Gymru a'r gymuned ehangach o amgylch y Môr Celtaidd. Roedd hon yn garreg filltir arwyddocaol yn ein taith ac fe wnaeth presenoldeb gwleidyddol trawsbleidiol ddangos hyd a lled y gefnogaeth rydym wedi'i phrofi dros y flwyddyn ddiwethaf.

Trafodaeth gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yng nghynhadledd Dyfodol Ynni Cymru ym mis Hydref



## Cyfleoedd o amgylch y wlad

Gyda Rownd 5 bellach wedi mynd allan i dendr, fy mhrif flaenoriaeth fydd sicrhau bod y buddion posibl yn cael eu teimlo mor eang â phosib. Mae gwaith tirfesur hanfodol i waredu risg o fewn y prosiectau eisoes ar y gweill, yn hwylio o borthladdoedd Abertawe ac Aberdaugleddau, a dim ond megis dechrau yw hyn. Mae adroddiad ymchwil Glasbrint y Môr Celtaidd a gomisiynwyd gan Ystad y Goron (ac sydd ar gael i'w ddarllen ar ein gwefan) yn datgan bod gan y rownd brydlesu hon prydlesu hwn y potensial i greu 5,300 o swyddi a sbarduno hwb o £1.4 biliwn i economi'r DU – ond mae angen i ni weithredu nawr, gan ddatblygu gallu o ran sgiliau a'r gadwyn gyflenwi.

Bwriad Sbardun y Gadwyn Gyflenwi £50 miliwn yw helpu gyda phrosiectau arian cyfatebol gyda'r potensial i gwrdd â'r gofynion a amlinellir yn y glasbrint, o weithgynhyrchu i gynnal a chadw. Lansiwyd y rownd ariannu peilot cychwynnol £10 miliwn ym mis Mehefin 2024 a byddaf yn parhau i sôn amdano, gan siarad ag arweinwyr mentrau, y siambr fasnach a chlybiau busnes ar hyd a lled Cymru am y cyfleoedd sydd i'w cael yn y Môr Celtaidd. Dysgwch fwy am y Sbardun ar dudalen 11 ac ar ein gwefan thecrownestate.co.uk/accelerator.

Wrth deithio yma ac acw mae hefyd wedi bod yn bleser gweld sut mae ein buddsoddiadau wir yn gwneud gwahaniaeth, gyda'r prosiect arddangos ynni llanw Morlais ar Ynys Môn yr ymwelais ag ef gyda'n Prif Weithredwr, Dan Labbad, ym mis Chwefror yn un o'r uchafbwyntiau. Rydym wrthi'n adeiladu ar ein buddsoddiad cychwynnol o £1.2 miliwn yn y prosiect gwych hwn, gydag ymrwymiad i fuddsoddi £1.4 miliwn arall dros y ddwy flynedd nesaf.

Ym mis Mawrth, bu'n bleser croesawu tîm Comisiynwyr ac arweinyddiaeth grwpiau Ystad y Goron i Sir Benfro. Gwnaeth hyn eu galluogi i weld drostynt eu hunain beth oedd yr heriau a'r cyfleoedd lleol, gan gwrdd â rhanddeiliaid allweddol a chynrychiolwyr o'r gymuned sy'n rhan annatod o'n gwaith. Fel cyn-fyfyriwr Coleg Sir Benfro, bu'n destun balchder i mi allu eu cyflwyno i'r gwaith gwych mae'r coleg yn ei wneud wrth weithio gyda'r diwydiant i roi'r sgiliau angenrheidiol i'r myfyrwyr i adeiladu gyrfaoedd yn y sector ynni gwyrdd y dyfodol.

Mae Ystad y Goron hefyd yn cyflogi nifer o gyn-fyfyrwyr o Ysgol Gwyddorau Eigion Prifysgol Bangor, sy'n gwneud gwaith gwych i godi ymwybyddiaeth myfyrwyr cyfredol o'r gyrfaoedd sydd i'w cael mewn cynllunio morol drwy fynychu ffeiriau gyrfaoedd a chynadleddau. Mae'r brifysgol yn cyfrannu llawer o waith ymchwil ynni alltraeth sydd wir ei angen, gan helpu i sefydlu Cymru fel arweinydd byd-eang o fewn y sector (gweler tudalen 8).



Dan Labbad ar y dde, gyda Phrif Weithredwr Porthladd Aberdaugleddau Tom Sawyer

I adlewyrchu'r statws arloesol hwnnw, roeddem wrth ein bodd i gael ein gwahodd i fynychu WINDEXPO ynghyd â'n cydweithwyr yn y porthladdoedd, gan rannu gwybodaeth ynghylch gwynt alltraeth arnofiol gyda chynrychiolwyr o'r sector adnewyddadwy yn Japan.

Fel sy'n cael ei drafod ar dudalen 8-9, rydym hefyd wedi ymrwymo i gefnogi adferiad byd natur. Mae hyn yn hollbwysig yng Nghymru, lle rydym eisoes wedi colli dwsinau o rywogaethau, gydag amcangyfrif bod un mewn chwech rhywogaeth o dan fygythiad yn ôl yr Adroddiad ar Sefyllfa Byd Natur, ac rydym yn awyddus i gefnogi ymgynghoriad a dyheadau Llywodraeth Cymru ar bositifrwydd byd natur. Rydym yn gwrando ar adborth gan ein rhanddeiliaid ac yn ystyried yn ofalus sut i sicrhau bod yr asedau sydd gennym yng Nghymru, ar y tir ac ar wely'r môr, yn cael eu diogelu mewn ffordd sy'n amddiffyn ac yn meithrin bioamrywiaeth. Er enghraifft, gallwch ddarllen am ein gwaith adfer wystrys ar dudalen 7.

Rwy'n gobeithio'n fawr y bydd yr adroddiad hwn yn dangos sut mae Ystad y Goron yn ychwanegu gwerth i Gymru ym mhob ystyr. Rydym yn ymwybodol bod yna farn gref ynghylch ein rôl, ond byddwn yn canolbwyntio ar ddod â'n hadnoddau, sgiliau a phrofiad i'r amlwg wrth gefnogi Llywodraeth Cymru yn ein dyheadau cyffredin.

Yn y flwyddyn nesaf, rwy'n edrych ymlaen yn fawr at agor hwb swyddfa cyntaf Ystad y Goron yng Nghaerdydd. Bydd hyn yn rhoi cychwyn ar y cam nesaf wrth gyflawni rhai o'r prosiectau cyffrous sy'n cael eu hamlinellu yn y tudalennau canlynol.

**Rebecca Williams**
Cyfarwyddwr Cymru

# Ein cefndir

## Mae Ystad y Goron yn berchen ar dir ac yn ei reoli ar ran y genedl, gan greu gwerth ariannol, amgylcheddol a chymdeithasol ar gyfer nawr a'r tymor hir.

Mae ein buddiannau yng Nghymru yn cynnwys ynni adnewyddadwy, sef ein gweithgarwch mwyaf sylweddol, yn ogystal â phiblinellau olew a nwy, cloddio am agregau morol, telathrebu a cheblau pŵer. Rydym hefyd yn rheoli tua 65% o'r blaendraeth a gwelyau afonydd llanw, sy'n cynnwys nifer o borthladdoedd. Ar y tir, rydym yn gwarchod dros 50,000 erw o dir comin, a ddefnyddir yn bennaf fel tir pori garw.

Trwy ein strategaeth (gweler tudalen 5), rydym yn ceisio mynd i'r afael ag anghenion cenedlaethol lle'r ydym yn y sefyllfa orau i roi ein cyfuniad unigryw o gryfderau ar waith, a chefnogi twf economaidd a chydraddoldeb canlyniadau. Cawsom ein sefydlu drwy Ddeddf Seneddol ac yn eistedd rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat, rydym yn gweithredu'n annibynnol ac yn fasnachol er mwyn cynyddu gwerth y portffolio er budd cenedlaethau'r dyfodol.



# Ein strategaeth

Trwy ein strategaeth rydym yn ceisio gwneud gwahaniaeth wrth fynd i'r afael ag anghenion cenedlaethol, lle rydym yn credu y gallwn gael effaith.

**Cael ein gyrru gan bwrpas:**
i greu ffyniant sy'n parhau ac a rennir i'r genedl gyfan

**Gwneud yn fawr o'n cryfderau a'n gwerthoedd unigryw**

Gofalu

Gyda'n gilydd

Creadigol

Cael effaith

**Rhoi sylw i anghenion cenedlaethol**

Anghenion newid hinsawdd ac ynni

Colledion Byd Natur

Pwysau cynyddol ar ganolfannau trefol

Heriau Economaidd

**Ein hamcanion strategol**

**Sero net a diogelwch ynni**



Bod yn arweinydd wrth gefnogi'r DU ar ei thaith tuag at ddyfodol di-garbon a sicr o ran ynni

**Adferiad natur a bioamrywiaeth**



Chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o warchod amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth y DU

**Cymunedau cynhwysol a thwf economaidd**



Helpu i greu cymunedau cynhwysol a chefnogi cydraddoldeb, twf economaidd a chynhyrchiant

**Sicrhau buddion ariannol**



Cynhyrchu gwerth a buddion ariannol mewn ffordd gyfrifol ar gyfer y wlad

**Creu gwerth ar gyfer y genedl**

Bydd ein strategaeth yn helpu i gyflawni cyfres uchelgeisiol o ganlyniadau cenedlaethol tymor hir, sy'n gallu cefnogi agenda'r polisi cenedlaethol, ysgogi twf economaidd a chefnogi gwell cynhyrchiant drwy ein holl weithgarwch i sicrhau'r enillion gorau posib i'r Trysorlys.

**Cymdeithasol**
Rydym yn chwarae rôl bositif drwy fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, rhoi iechyd a diogelwch yn gyntaf, a chreu cyfleoedd cynhwysol

**Amgylcheddol**
Helpu i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a bioamrywiaeth byd-eang drwy greu mannau sy'n fwy gwyrdd a chyflymu datblygiad technolegau adnewyddadwy

**Ariannol**
Rydym yn ceisio cadw cydbwysedd rhwng gwerth ariannol tymor byr a thymor hir, gan sicrhau enillion heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

**Galluogi**
Y gwerth anuniongyrchol rydym yn ei alluogi drwy ein gweithgarwch, er enghraifft, swyddi sy'n cael eu creu drwy'r diwydiant ynni gwynt alltraeth

# Carbon sero net a diogelwch ynni

Mae hi bron yn 20 mlynedd ers i fferm wynt alltraeth gyntaf y DU ddod yn weithredol oddi ar arfordir gogledd Cymru rhwng y Rhyl a Phrestatyn. Daeth North Hoyle, sydd ar brydles fel rhan o rownd brydlesu gyntaf cyntaf ynni gwynt alltraeth Ystad y Goron, yn rhan o hanes hir a nodedig Cymru o ynni adnewyddadwy.

Heddiw rydym yn ceisio dechrau pennod newydd yn yr hanes hwnnw drwy helpu i ddatblygu technolegau'r genhedlaeth nesaf. Carreg filltir fwyaf y flwyddyn yn y cyswllt hwn oedd lansio Rownd 5 Prydlesu Ynni Gwynt Alltraeth, pan fydd ffermydd gwynt alltraeth arnofiol cyntaf y DU yn cael eu hadeiladu yn y Môr Celtaidd.

Rhagwelir y bydd dros 260 tyrbin ar draws y tri safle sy'n rhan o Rownd 5, gyda phob un hyd at

300 metr o uchder (tua tair gwaith yn uwch nag adeilad uchaf Cymru, Tŵr Meridian yn Abertawe), ac yn eistedd ar lwyfan wedi'i angori a fydd tua maint cael pêl-droed. Trwy roi tyrbinau gwynt mewn dyfroedd dyfnach, lle mae patrymau gwynt yn gryfach ac yn fwy dibynadwy, mae gan y prosiectau arloesol hyn y potensial i wneud ynni gwynt alltraeth hyd yn oed yn fwy effeithlon, gan ddarparu hyd at 4.5GW o ran capasiti – digon i gyflenwi ynni ar gyfer dros 4 miliwn o gartrefi.

Rydym wedi ymgynghori'n eang gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys llywodraethau Cymru a'r DU, cyrff amgylcheddol anllywodraethol, partneriaid posibl o fewn y diwydiant a'r gymuned bysgota er mwyn sicrhau bod y prosiectau'n cwrdd ag anghenion cymunedau, busnesau a byd natur. (Mae Sbardun y Gadwyn Gyflenwi, sy'n cael ei egluro ar dudalen 9 yn enghraifft o sut rydym yn gwneud hyn.)

Y tu hwnt i wynt alltraeth, rydym yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wneud Cymru – sydd, o ganlyniad i'w hinsawdd a'i daearyddiaeth, yn meddu ar ail amrediad llanw uchaf y byd – yn ganolfan o bwysigrwydd byd-eang ar gyfer technolegau'r môr sy'n datblygu.

Mae ynni llanw'n ffynhonnell ynni adnewyddadwy arall sy'n cynnig cyfleoedd sylweddol i Gymru, ac rydym yn gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru er mwyn gwaredu risg a chyflymu prosiectau ynni ffrwd llanw, gyda'r bwriad o ddefnyddio data gan ein Cyfnewidfa Data Morol i helpu nodi lleoliadau newydd a chyflymu'r broses gydsynio.

Rydym hefyd yn ymgysylltu â nifer o dimau prosiectau llwyddiannus o Her Môr-lynnoedd Llanw Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd yng nghynhadledd Ynni Morol Cymru yn Abertawe ym mis Mawrth 2024.

Gwaith ar fferm wynt Gwynt y Môr ym Môr Iwerddon





“Mae Ynni Adnewyddadwy’r Môr yn creu cyfle unwaith mewn bywyd i gadwyni cyflenwi Cymru. Mae arweinyddiaeth Ystad y Goron yn y sector yn ganolog i sicrhau twf economaidd cynaliadwy, swyddi a sgiliau fydd yn ymledu o hybiau’r porthladdoedd.”

**Tom Sawyer**
Prif Weithredwr, Porthladd Aberdaugleddau

Mae Prosiect Morlais ar Ynys Môn yn parhau i fynd o nerth i nerth, gyda nifer o Gontractau ar gyfer Gwahaniaeth yn cael eu dyfarnu i’w ddatblygwyr yn ystod cam diweddaraf prydlesu ynni adnewyddadwy Llywodraeth y DU. Mae safle Morlais, sy’n cael ei redeg gan y fenter gymdeithasol Menter Môn ac a gafodd ei roi ar brydles gyntaf gan Ystad y Goron yn 2014, yn helpu i ddatblygu technolegau arloesol. Gydag uchafswm capasiti o 240MW a chysylltiad â’r grid cenedlaethol, dyma’r prosiect mwyaf o’i fath yn y byd sydd wedi cael caniatâd. Mae ein strategaeth tymor hir a’n hymrwymiad i arloesi wedi creu partneriaeth gadarn sydd wedi bod o fudd i’r diwydiant ac i’r economi leol.

Rydym yn gobeithio bod ein hymrwymiad i fuddsoddi £1.4 miliwn arall yn y Prosiect Ymchwil Nodweddion y Môr dros y ddwy flynedd nesaf yn helpu i ddatblygu’r dechnoleg arloesol hon mewn ffordd wirioneddol gynaliadwy sy’n amddiffyn byd natur ac o fudd i’r gymuned

Mae potensial ynni llanw cynaliadwy yn Aber Afon Hafren wedi bod yn destun trafod ers sawl blwyddyn, ac rydym yn cefnogi’r comisiwn annibynnol a sefydlwyd drwy Western Gateway i ymchwilio i’r posibilrwydd hwn. Bydd y comisiwn yn archwilio amrywiaeth o opsiynau gan gynnwys dadansoddi’r dechnoleg sydd ar gael, pa ardaloedd fyddai’n briodol a sut gellir lleihau effeithiau amgylcheddol.

**Arloesi ar lwyfan y byd**
Mae ynni gwynt alltraeth arnofiol yn dechnoleg arloesol sy’n rhoi Cymru ar y map.

Tra’n mynychu amrywiol gynadleddau ynni a gwynt alltraeth eleni, mae’r tîm o Ystad y Goron wedi bod wrth eu bodd yn cwrdd â chwmnïau a dirprwyaethau ledled y byd sydd wedi mynegi diddordeb yn y cyfle sydd ar gael yn y Môr Celtaidd.

Rydym wedi cefnogi Llywodraeth Cymru wrth hyrwyddo Cymru i’r byd drwy ymuno â thrafodaeth banel yng nghynhadledd WindEurope yn Bilbao ym mis Mawrth yn ogystal â chyfrannu at WINDEXPO, sioe fasnach ynni gwynt fwyaf Japan, ym mis Chwefror.



# Adfer byd natur a bioamrywiaeth

Mae'r byd naturiol mewn cyflwr diffygiol gydag adroddiad Sefyllfa Byd Natur yn dangos bod un o bob chwe rhywogaeth yng Nghymru mewn perygl o ddiflannu'n llwyr. Yn gynharach eleni, gwnaeth Llywodraeth Cymru amlinellu ei bwriad i fewnosod egwyddorion amgylcheddol yng nghyfraith Cymru, gan osod targedau bioamrywiaeth a chymryd camau rhagweithiol i adfer byd natur.

Mae gan Ystad y Goron gyfle unigryw i gyfrannu, drwy'r asedau sydd gennym, o'n tir comin i wely'r môr, gan ddefnyddio ein gwybodaeth, profiad a phartneriaethau.

Ar ôl ymgynghori'n eang gydag arbenigwyr ar fyd natur a chadwraeth, yn ogystal â chynrychiolwyr o amrywiaeth o sectorau, gan gynnwys pysgota, ffermio a'r amgylchedd adeiledig, rydym wedi datblygu strategaeth er mwyn ein helpu i wneud y gorau o'n heffaith. Mae'n ein hymrwymo i:

— Ddeall byd natur
— Creu partneriaeth ar gyfer byd natur
— Cynllunio ar gyfer byd natur
— Ariannu byd natur

Dyma'r dull o weithredu sydd y tu ôl i'r gefnogaeth rydym yn ei rhoi i waith ymchwil ym Mhrifysgol Bangor, fel y prosiect ECOWind-ACCELERATE (gweler y blwch) a nifer o ddoethuriaethau perthnasol sy'n helpu i fod yn sail i'n dull o adfer byd natur sy'n cael ei arwain gan ddata.

Wrth i ni geisio dyfnhau ein heffaith rydym yn creu partneriaethau gyda sefydliadau ar lefel leol a chenedlaethol, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Mae ein gwaith gyda CNC yn cynnwys prosiect mapio cynefinoedd posibl, ble y byddwn yn ceisio nodi ardaloedd blaenoriaeth ar gyfer adfer morwellt, morfeydd heli a'r wystrys brodorol.

Mae'r WWF ac Ystad y Goron wedi cyd-gomisiynu ymchwil ar Werth Ffermio Gwymon yn y Dyfodol yn y DU. Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar y potensial sydd gan gynhyrchion sydd wedi'u gwneud o wymon i gymryd lle agro-gemegau a phecynnau plastig, gan ddod â chyfleoedd i economïau a chymunedau lleol yng Nghymru.

**Gwaith ymchwil arloesol ym Mangor**
Mae ECOWind-ACCELERATE yn brosiect ymchwil sy'n edrych ar effaith ffermydd gwynt ar gynefinoedd ac ecosystemau sy'n eu hamgylchynu. Gellir defnyddio'r wybodaeth hon er mwyn datblygu dull mwy strategol o ymdrin â monitro amgylcheddol ar gyfer y dyfodol, gyda'r nod yn y pen draw o sicrhau enillion o fioamrywiaeth.

Caiff ei arwain gan wyddonwyr ym Mhrifysgol Bangor, ac mae dros 30 o ymchwilwyr a gwyddonwyr yn gweithio ar y prosiect £2 miliwn, yr ydym yn helpu i'w ariannu drwy ein rhaglen Tystiolaeth a Newid Gwynt Alltraeth. Mae'r allbwn hyd yma'n cynnwys rhagfynegiadau o broblemau ar wely'r môr yn 2025 ac yn 2100 (gan gymryd newid hinsawdd i ystyriaeth), a'r gwaddodion y gellir eu symud yn sgil tyrbin gwynt.

Mae'r ymchwilwyr hefyd yn ymchwilio i sut mae anifeiliaid yn dibynnu ar waddodion gwely'r môr ar gyfer cynefinoedd, bwyd ac atgenhedlu, a sut mae ysglyfaethwyr pwysig fel adar môr yn dibynnu ar ddigonedd ac ymddygiad yr anifeiliaid hynny am eu bwyd.



Rydym hefyd yn cynllunio ar gyfer byd natur, er enghraifft drwy greu Trywydd Cyflawni Morol sy'n defnyddio data er mwyn cwrdd ag anghenion pobl a natur nawr ac yn y dyfodol. Mae prosiect arall sy'n cael ei ariannu gan ein rhaglen Tystiolaeth a Newid Gwynt Alltraeth yn gweithio i hyrwyddo cydfodolaeth bywyd yn y môr gyda deunyddiau ceblau ynni gwynt alltraeth. Trwy helpu bywyd gwyllt fel cwrel, cregyn gleision a chregyn llong, y gobaith yw y bydd y fenter hon yn gadael yr amgylchedd naturiol mewn cyflwr gwell y gellir ei fesur.

Mae ein buddsoddiadau mewn mentrau ymchwil ac adfer byd natur fel y Prosiect Potensial Adfer Morol (sy'n mapio'r cynefinoedd sy'n dirywio fel coedwigoedd môr-wyail a gwelyau maerl er mwyn rhoi mewnwelediad i sut i'w hadfer) yn cael eu targedu lle rydym yn credu y gallwn gael y mwyaf o effaith.

Rydym hefyd yn cydnabod bod angen mynd i'r afael â'r bwlch ariannu ar gyfer anghenion byd natur ar lefel systemig. Rydym felly'n archwilio'r posibilrwydd ar gyfer marchnadoedd cyfalaf naturiol morol trachywir yn y DU, ac yn ystyried ble y gallem gefnogi canlyniadau ar raddfa eang drwy beilota strwythurau ariannol, mecanwaith ar gyfer cyflawni a threfniadau partneriaethau.



"Mae Ystad y Goron wedi darparu cefnogaeth ariannol ac ymarferol ar gyfer y prosiect ECOWind-ACCELERATE. Rydym nawr yn cydweithio i hwyluso cyflymiad ac ehangiad gwynt alltraeth, gan ystyried cynaliadwyedd ac enillion net bioamrywiaeth."

**Katrien Van Landeghem,**
Athro Daeareg y Môr, Prifysgol Bangor



**Adfer hidlyddion dŵr byd natur**

Gall wystrys lanhau dŵr drwy dynnu ymaith lygredd, nitradau a gronynnau, ac mae eu riffiau'n creu cartrefi i fywyd môr arall. Mae colli poblogaethau wystrys brodorol - sydd wedi dirywio o 95% ers yr 1880au, oherwydd datblygiadau arfordirol, llygredd dŵr, gorbysgota hanesyddol a physgota - felly wedi cyfrannu at y dirywiad cyffredinol mewn cynefinoedd naturiol. Yn y cyfamser, mae'r diwydiant pysgota wystrys a'r ffordd o fyw yr oedd yn ei gynorthwyo yn ein cymunedau arfordirol wedi cael ei golli ar y cyfan.

Er mwyn chwarae ein rhan yn y broses o wyrdroi'r duedd hon, mae Ystad y Goron yn cefnogi gwaith ymchwil ac adfywio yng Nghymru ac ar hyd a lled y DU. Ym Mae Conwy, rydym yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r prosiect Wystrys Gwyllt (Wild Oyster), i ddatgloi mynediad i wely'r môr fel y gallant ryddhau "meithrinfeydd" wystrys i mewn i'r môr.

Mae pob meithrinfa'n cynnwys 27 o wystrys aeddfed a fydd yn cynhyrchu'r genhedlaeth nesaf o larfâu. Mae dal yr wystrys yn agos at ei gilydd yn gwella eu siawns o fridio'n llwyddiannus, gan adfer poblogaeth wystrys hunangynhaliol i'n moroedd.

# Cymunedau cynhwysol a thwf economaidd

Mae gan yr ymdrech tuag at drawsnewidiad byd-eang i sero net erbyn 2050 y potensial i yrru twf sylweddol ar lefel leol a chenedlaethol, ac rydym yn gweithio'n galed i sicrhau bod ein gweithgareddau i gynorthwyo'r amgylchedd hefyd yn helpu busnesau a chymunedau i ffynnu.

Mae'r ymdrechion  hyn yn alinio'n dda â'r weledigaeth sy'n cael ei hamlinellu gan weinidogion Cymru yn yr ymgynghoriad Fframwaith Pontio Teg. Wedi'i chyhoeddi ym mis Rhagfyr 2023, mae'r ddogfen hon yn dychmygu dyfodol lle mae gweithredu ar newid hinsawdd wedi cyfrannu mewn ffordd bositif at ganlyniadau iechyd, lles personol, cydlynu cymunedol a thwf economaidd yng Nghymru.

Wrth i ni geisio cyfrannu, rydym yn cael ein harwain gan gyfres o egwyddorion effaith gymdeithasol sy'n ein hymrwymo i fynd i'r afael ag anghenion cenedlaethol, canolbwyntio ar leoedd, gwrando ar gymunedau a sicrhau eu bod yn rhan o'r hyn sy'n digwydd, a chydweithio er mwyn gweithredu ar y cyd. Drwy'r dull hwn o weithredu, rydym wedi cydnabod bod y rhyngwyneb rhwng tir a môr yn arbennig o bwysig i gymunedau a diwydiant yng Nghymru, ac rydym yn ceisio defnyddio ein rôl fel gwarcheidwaid gwely'r môr i gefnogi'r ddau beth.

Am y tro cyntaf mewn cam prydles ynni gwynt alltraeth mawr, rydym wedi cynnwys yn Rownd 5 y broses dendro sydd â nifer o ofynion cytundebol i ddarpar-ddatblygwyr weithio gyda'r cymunedau cyfagos. Mae'r rhain yn nodi bod yn rhaid i'n cwsmeriaid ddatblygu cynlluniau sy'n berthnasol i sgiliau, swyddi, ymgysylltu a gwirfoddoli ac edrychwn ymlaen at weld sut fydd y rhain yn cael effaith bositif ar y cymunedau o amgylch y Môr Celtaidd.

Mae gan ofynion helaeth swyddi a'r gadwyn gyflenwi yn Rownd 5 hefyd y potensial i gyflawni buddion sylweddol. Gwnaethom gomisiynu ymchwil i edrych ar ofynion y gadwyn gyflenwi ar gyfer y prosiectau, sydd wedi eu cyhoeddi ar ffurf Glasbrint y Môr Celtaidd. Adroddodd y gallai gwaith cynhyrchu, cludo a chodi'r ffermydd gwynt greu dros 5,300 o swyddi a chreu hwb o £1.4 miliwn i'r economi.

**Sea Rangers**
Ar ôl cynnal bŵtcamp ym Mhort Talbot ym mis Mawrth, mae Sea Ranger Service bellach wedi cyflogi ei Sea Rangers cyntaf yn y DU.

Mae Ystad y Goron yn cefnogi tasg gyntaf Sea Rangers i fonitro bywyd gwyllt yn y Môr Celtaidd fel rhan o raglen arolygu dros sawl blwyddyn i gefnogi datblygiadau ynni gwynt alltraeth arnofiol o'u safle ym Mhort Talbot.

Bydd Sea Rangers yn cael hyfforddiant penodol gan aelodau o dîm Ystâd y Goron, a fydd yn ymuno â'r criw ar y môr ac yn dysgu arferion gorau arsylwi, monitro, cofnodi a phrosesu data iddynt.

Pan fyddant yn gweithio allan ar y môr bydd Sea Rangers yn monitro adar môr ac anifeiliaid eraill yn y Môr Celtaidd.






"Rydym yn ymfalchïo yn y bartneriaeth rydym wedi ei datblygu gydag Ystad y Goron, sydd yn y pen draw yn dod â budd mawr i gymuned ddysgu Sir Benfro."

**Barry Walters,**
Pennaeth, Coleg Sir Benfro

Mae'r nifer posibl o swyddi sydd wedi'u nodi yn adroddiad Glasbrint y Môr Celtaidd hefyd yn arwyddocaol, ac mae'r angen am fuddsoddi mewn sgiliau a thalent wedi cael eu nodi fel prif flaenoriaeth. Mae gweithgareddau Ystad y Goron i gefnogi datblygu gweithlu'r dyfodol yn amrywio o fynychu ffeiriau gyrfaoedd prifysgolion i feirniadu cystadlaethau sgiliau ar gyfer colegau ledled Cymru. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda Choleg Sir Benfro, sydd wedi dangos arweinyddiaeth drwy brosiectau megis Cyrchfan Ynni Adnewyddadwy, cwrs peilot sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod gan fyfyrwyr y sgiliau gweithgynhyrchu a thechnegol ar gyfer gyrfaoedd mewn ynni adnewyddadwy; ac yn ddiweddar maent wedi lansio prosiect SPARC, sy'n canolbwyntio ar ddenu merched talentog i yrfaoedd STEM.

Gwaith tirfesur Prydlesu Ynni Gwynt Alltraeth, Rownd 5:



**Sbardun y Gadwyn Gyflenwi**
Er mwyn gwneud ynni gwynt alltraeth arnofiol yn llwyddiant a sicrhau bod y buddion yn cael eu rhannu, mae angen inni adeiladu gallu ein cadwyn gyflenwi ddomestig.

Er bod gan y DU yr ail farchnad wynt alltraeth fwyaf yn y byd, mae ein cadwyn gyflenwi ynni gwynt alltraeth y tu ôl i wledydd eraill Ewrop. Drwy gyfrwng ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid, rydym wedi dysgu mai un o'r rhwystrau sy'n wynebu cwmnïau o'r DU yw diffyg cyfalaf risg cynnar. Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r broblem, rydym wedi creu Sbardun y Gadwyn Gyflenwi £50 miliwn er mwyn creu arian cyfatebol ar gyfer prosiectau sydd yn y camau cychwynnol ac sy'n cysylltu â gofynion Rownd 5, fel y'u hamlinellir yn adroddiad Glasbrint y Môr Celtaidd.

Ar gyfer y rownd ariannu peilot cychwynnol o £10 miliwn, a lansiwyd ym mis Mehefin 2024 rydym yn chwilio am brosiectau yn y DU sy'n cysylltu â gofynion Rownd 5.

Gallai prosiectau cymwys gynnwys ffatrïoedd, safleoedd gweithgynhyrchu, cyfleusterau profi, neu ganolfannau storio a dosbarthu. Bydd y Sbardun yn darparu arian cyfatebol o £250,000 hyd at £1 miliwn yn ystod y cam datblygu, er mwyn cynnwys gweithgareddau fel ymchwil i'r farchnad, cynllunio busnes, arolygon, astudiaethau dichonolrwydd a cheisiadau cynllunio. Am ragor o wybodaeth, ewch i'n gwefan.

**5,300**
o swyddi yng nghadwyn gyflenwi Rownd 5

**£1.4 biliwn**
o hwb i economi'r DU

**£50 miliwn**
cyfanswm gwerth ein Sbardun y Gadwyn Gyflenwi

**Adroddiadau 2023/24**

**Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol**
**Adolygiad Cymru (Cymraeg a Saesneg)**
**Adolygiad Gogledd Iwerddon**
**Atodiad Data Cynaliadwyedd**
**Meini Prawf Adrodd Amgylcheddol**

Gellir lawrlwytho Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2023/2024 a'n hadroddiadau atodol yn:
**thecrownestate.co.uk/annual-report**

## Cydnabyddiaeth am y ffotograffau

**Tudalen 7**
Ferm wynt Provence Grand Large, Ffynhonnell: SBM

**Tudalen 8**
Keith Hiscock

**Tudalen 9**
Paul Naylor

THE CROWN ESTATE


**Llundain**
**The Crown Estate**
1 St James's Market
London
SW1Y 4AH

**F** 020 7851 5000

**Windsor**
**The Crown Estate**
The Great Park
Windsor
SL4 2HT

**F** 01753 860 222

**Hwb Caerdydd**
**Ystad y Goron**
Hodge House
114-116 Stryd y Santes Fair
Caerdydd
CF10 1DY

**thecrownestate.co.uk**
**@TheCrownEstate**